COMISIWN gwasanaethau cyfreithiol

Nodiadau ar sut i lenwi'r ffurflen
CDS14: Cais am Gymorth Cyfreithiol mewn Achos Troseddol

Cyffredinol

Rhaid i chi ateb bob cwestiwn ar y ffurflen a darparu tystiolaeth pan fydd angen. Gall peidio â gwneud hynny arafu'r broses o ddarparu cymorth cyfreithiol ac efallai na dderbyniwch help cyfreithiol am ddim gan eich twrnai.

Dim ond os ydych yn pasio'r profion Budd Cyfiawnder a chymhwysedd ariannol y gallwn roi cymorth cyfreithiol i chi.

Rhaid i chi lenwi'r ffurflen mewn inc du neu las a defnyddio PRIF LYTHRENNAU. Oni allwn ddarllen eich cais, byddwn yn ei ddychwelyd. Holwch dwrnai am gyngor os nad ydych yn siŵr sut mae ateb unrhyw gwestiwn ar y ffurflen.

Os caiff eich achos ei glywed yn Llys y Goron, rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon a Ffurflen B y llys yn unig. Ceir gwybodaeth fanylach yn y Canllawiau ar Wneud Cais am Gymorth Cyfreithiol Troseddol yn www.gwasanaeth-llysoeddem.gov.uk

Rhan A - Amdanoch chi

Nodyn 1 **A oes rhaid i fi roi fy Rhif Yswiriant Gwladol (yng nghwestiwn 4 ar dudalen 1)?**

Mae'n rhaid i chi ateb y cwestiwn os ydych yn derbyn un o'r budd-daliadau a enwir yng nghwestiwn 11. Oni allwch chi neu'ch partner roi eich rhif Yswiriant Gwladol a'ch bod yn derbyn un o'r budd-daliadau a enwir yng nghwestiwn 11, rhaid i chi roi tystiolaeth ddiweddar yn lle hynny. Ni all y dystiolaeth hon fod yn hŷn na thri mis oed e.e. llyfr budd-daliadau, hysbysiad o'ch hawl neu lythyr gan y Ganolfan Byd Gwaith yn nodi'r budd-daliadau a dderbyniwch.

Nodyn 2 Pam ydych chi'n holi am fy oedran (cwestiwn 9) ac am fy statws o ran budd-daliadau (cwestiwn 11)?

Os ydych yn ticio 'ydw' i gwestiwn 9 neu gwestiwn 11, rydych chi'n gymwys ar gyfer cymorth cyfreithiol yn awtomatig. Ond os ydych chi'n ticio 'na', rhaid i chi hefyd lenwi ffurflen CDS15 a'i chyflwyno gyda'r ffurflen hon.

Nodyn 3 **Beth sy'n digwydd os yw fy mhartner yn rhan o'r achos a'm bod yn ticio 'ydy' i gwestiwn 12?**

Os ydych yn ticio 'ydy', nid oes angen i chi lenwi manylion eich partner ar y ffurflen.

N odyn 4 **Beth ddylwn ei wneud os nad yw fy mhartner yn gallu llofnodi'r datganiad?**

Os yw eich partner mewn gwlad dramor, yn yr ysbyty, neu'n methu llofnodi'r datganiad am reswm arall, rhaid i chi nodi'r rhesymau pam nad yw'n gallu llofnodi'r datganiad a rhoi manylion cyswllt cyfredol eich partner yn Rhan A cwestiwn 18 er mwyn i ni allu derbyn eich cais.

Nodyn 5 **Beth yw diben yr adran Gwybodaeth Bellach?**

Mae croeso i chi roi unrhyw wybodaeth bellach i gefnogi'ch hawliad.

Nodyn 6 **Beth yw diben yr adran ar Fonitro Cyfle Cyfartal ac Anabledd?**

Gofynnwn yn garedig i chi lenwi'r adran hon, ond nid oes rhaid i chi. Cedwir eich gwybodaeth bersonol yn gyfrinachol a bydd yn ein helpu ni gyda'n ymchwil a'n monitro ystadegol.

Rhan B – Buddiannau Cyfiawnder

Nodyn 7 **Sut mae llenwi'r adran hon?**

Os allwch chi, dylech geisio cymorth twrnai i lenwi RHAN B. Mae hynny oherwydd y gallant roi rhesymau cyfreithiol priodol i egluro pam y dylech chi gael cymorth cyfreithiol.

Mae'n bosib y bydd eich twrnai yn dymuno troi at ganllawiau Cymdeithas Clercod yr Ynadon ar y prawf buddiannau cyfiawnder, sydd i'w gweld yn www.legalservices.gov.uk.

Nodyn 8 **Nid wyf yn deall cwestiwn 4a a'r rhesymau pam fod angen cynrychiolaeth arnaf.**

i) Mae hi'n debygol y byddwn yn colli fy rhyddid petai unrhyw fater yn yr achos yn mynd yn fy erbyn:

Nid yw colli rhyddid yn cynnwys dedfrydau di-garchar ond mae'n cynnwys remand yn y ddalfa a dedfrydau o garchar (gan gynnwys gorchmynion ysbyty). Os nad caethiwed yw pwynt mynediad y trosedd hwn yng nghanllawiau'r ynadon, eglurwch pam eich bod yn meddwl bod caethiwed yn debygol yn yr achos hwn (er enghraifft, euogfarnau blaenorol perthnasol). Rhowch ddyddiadau euogfarnau perthnasol, os ydych yn eu gwybod

ii) Rwyf wedi cael dedfryd ohiriedig neu ddi-garchar. Os torraf hyn, gall y llys ddelio â mi am y trosedd gwreiddiol:

Dylech roi manylion eich dedfryd a'r amodau sydd ynghlwm wrthi.

iii) Mae hi'n debygol y byddaf yn colli fy mywoliaeth:

Dylai colli bywoliaeth fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r euogfarn neu'r ddedfryd – rhowch dystiolaeth gefnogol pan fo hynny'n bosibl. Byddai hyn fel rheol yn cyfeirio at eich bywoliaeth gyfredol, er y gall fod yn berthnasol os yw rhywun yn wirioneddol ddi-waith am gyfnod byr rhwng swyddi. Os ydych yn bwriadu pledio'n euog, eglurwch sut y gallai cynrychiolaeth gyfreithiol eich helpu rhag colli eich bywoliaeth.

iv) Mae hi'n debygol y byddai'n difrodi fy enw da'n ddifrifol:

Mae enw da yn cyfeirio at gymeriad da, gan gynnwys gonestrwydd a natur ddibynadwy, ac nid yw'n golygu dosbarth na safle mewn cymdeithas. Pennir bod difrod 'difrifol' yn golygu pan fydd gwarth euogfarn yn fwy nag effaith uniongyrchol y gosb. Os ydych yn bwriadu pledio'n euog, eglurwch sut y gallai cynrychiolaeth gyfreithiol eich helpu i osgoi difrod difrifol i'ch enw da.

v) Gall cwestiwn cyfreithiol sylweddol fod yn berthnasol (boed yn codi o ddeddf, awdurdod barnwrol neu ffynhonnell arall o gyfraith):

Mae hyn yn berthnasol pan fydd unrhyw fater mewn perthynas â'r achos yn codi pwynt cyfreithiol na ellir disgwyl i chi ddelio ag ef heb gymorth. Eglurwch pam bod y cwestiwn cyfreithiol yn berthnasol i'r achos. Nid yw cwestiynau ffeithiol yn unig yn berthnasol. Pan fo'n bosibl, rhestrwch yr achosion neu'r cyfreithiau sy'n arwain at y cwestiwn cyfreithiol.

vi) Efallai na fyddaf yn gallu deall yr achos llys neu gyflwyno fy achos fy hun:

Ceir sawl rheswm a allai eich rhwystro rhag deall yr achos llys neu gyflwyno eich achos eich hun. Gall y rhain gynnwys (o blith eraill) anabledd meddyliol neu gorfforol, gwybodaeth wael o'r Saesneg, oedran neu fregusrwydd. Mae cymhlethdod yr achos hefyd yn debygol o effeithio ar eich gallu i ddeall yr achos neu gyflwyno eich achos eich hun.

vii) Efallai y bydd yn rhaid dod o hyd i dystion neu gyfweld â nhw ar fy rhan:

Efallai y bydd angen i chi ddod o hyd i dystion neu gyfweld â nhw i ganfod a allant gefnogi eich achos os ydych yn pledio'n ddieuog neu eich helpu gyda phle mewn lliniariad (rhoi esboniad am y trosedd ar ran parti euog er mwyn esgusodi neu esgusodi'n rhannol y trosedd a gyflawnwyd mewn ymdrech i leihau'r ddedfryd) os ydych yn pledio'n euog. Dylech egluro pam bod angen cynrychiolaeth gyfreithiol arnoch i ddod o hyd i dystion neu gyfweld â nhw.

viii) Gallai'r achos gynnwys croesholi tyst dros yr erlyniad mewn ffordd arbenigol (boed yn arbenigwr ai peidio):

Mae hi'n debygol y bydd angen croesholi mewn ffordd arbenigol pan fyddwch yn pledio'n ddieuog ac yn disgwyl i'r erlyniad alw tystion yr ydych am herio eu tystiolaeth. Mae hi'n debygol y bydd angen cyfreithiwr arnoch i groesholi mewn ffordd arbenigol ar eich rhan os yw tystiolaeth tyst yr erlyniad yn gymhleth neu'n dechnegol.

ix) Byddai o fudd i rywun arall petai gennyf gynrychiolaeth (fel y sawl sy'n cwyno neu dyst arall):

Os cawsoch eich cyhuddo o drosedd rhyw neu drosedd dreisgar, neu os yw'r sawl sy'n cwyno yn blentyn, ni fyddai'n briodol i chi groesholi'r unigolyn hwnnw neu honno'n bersonol. Ni ddylid defnyddio'r maen prawf hwn i ddadlau bod cynrychiolaeth gyfreithiol er budd cyffredinol i'ch teulu neu'r llys.

x) Unrhyw resymau eraill

Rhowch fanylion llawn unrhyw resymau eraill (nad ydych wedi eu nodi yn unman arall ar y ffurflen) pam eich bod yn credu y byddai o fudd i gyfiawnder petai gennych gynrychiolaeth. Er enghraifft, efallai y byddai modd cyfiawnhau cynrychiolaeth gyfreithiol os yw'n debygol y caech ddedfryd gymunedol anodd petaech yn cael euogfarn, neu os oes angen holi tyst yr amddiffyniad mewn ffordd fedrus.

Rhan C - Datganiad

Nodyn 9 **Nid yw fy mhartner yn gallu llofnodi'r datganiad.**

Os nad yw eich partner yn gallu llofnodi'r datganiad, cyfeiriwch at nodyn 4 a Rhan A cwestiwn 18. Cofiwch, drwy lofnodi eich datganiad ar y ffurflen hon, rydych yn rhoi caniatâd i'r Comsiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ddefnyddio a gwirio'r wybodaeth gyswllt am eich partner.

CDS1 5: Datganiad Ariannol ar gyfer Cymorth Cyfreithiol mewn Achos Troseddol

Cyffredinol

Rhaid i chi hefyd lenwi Ffurflen CDS14 a'i chyflwyno gyda'r ffurflen hon.

Rhaid i chi lenwi'r ffurflen mewn inc du neu las a defnyddio PRIF LYTHRENNAU.

Mae angen i ni benderfynu a ydych yn gymwys yn ariannol ai peidio. Rhaid rhoi gwybodaeth lawn am eich modd ac, os yw'n berthnasol, modd eich partner. Derbynnir eich cais os yw eich partner mewn gwlad dramor, yn yr ysbyty neu'n methu â llofnodi am resymau eraill, ond rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o hyn.

Oni fyddwch yn darparu tystiolaeth ategol pan ofynnwn, byddwn yn dychwelyd eich cais fel un anghyflawn.
I gael gwybod mwy am ein hasesiadau ariannol, gallwch ddarllen ein harweiniad. Gellir dod o hyd i hwn yn swyddfa unrhyw gwmni twrneiod sy'n ymwneud â gwaith amddiffyn troseddol neu ar-lein yn www.legalservices.gov.uk.

Rhan A

Nodyn 1 **Sut fyddwch chi'n gwybod faint rwy'n ei ennill a faint o dreth ac Yswiriant Gwladol rwy'n ei dalu?**

Byddwn yn edrych ar y dystiolaeth a ddarparwch (e.e. eich slip cyflog) i weld faint rydych chi'n ei ennill a faint o dreth ac Yswiriant Gwladol rydych chi'n ei dalu.

Nodyn 2 **Rwy'n hunangyflogedig. Pa adrannau ddylwn eu llenwi?**

Os ydych chi'n hunangyflogedig, rhaid i chi lenwi pob adran gan gynnwys **RHAN B.**

Nodyn 3 **Pa fath o dystiolaeth sydd angen i mi ei chyflwyno yng nghwestiwn 1 i brofi fy incwm?**

Rhaid i chi roi eich slip neu'ch slipiau cyflog diweddaraf. Os ydych yn gyflogedig ac yn y ddalfa ac nad oes modd i chi ddarparu slip cyflog, rhaid i chi lenwi Ffurflen CDS17: Datganiad Gwirionedd.

Nodyn 4 **Pa dystiolaeth sydd angen i mi ei chyflwyno os rwy'n derbyn 'buddion ymarferol'?**

Rhaid i chi ddarparu eich ffurflen P2 ddiweddaraf.

Nodyn 5 **Ddylwn i gynnwys y swm o fudd-dal tai a dderbyniaf fel rhan o fy ateb i gwestiwn 2?**

Na, ni ddylech ychwanegu'r swm o fudd-dal tai a dderbyniwch. Didynnir y swm hwn yn nes ymlaen yn y ffurflen yng nghwestiwn 7a.

Nodyn 6 **Pa fath o dystiolaeth sydd angen i mi ei chyflwyno yng nghwestiwn 3 i brofi unrhyw incwm a dderbyniaf o bensiwn preifat?**

Rhaid i chi ddarparu cyfriflen banc ddiweddar i ddangos y swm a dderbyniwch o bensiwn preifat.

Nodyn 7 **Pa ffactorau ddylwn eu hystyried yng nghwestiwn 7a wrth gyfrifo faint o rent neu forgais rwy'n ei dalu?**

Ni ddylai swm y rhent neu'r morgais gynnwys ôl-ddyledion a dylech dynnu swm y budd-dal tai ohono hefyd.

Nodyn 8 **Sut mae profi bod fy nghostau gofal plant neu gostau'r tŷ yn arbennig o uchel?**

Os yw costau eich tŷ yn fwy na £500 y mis, rhaid i chi ddarparu copi o'ch cytundeb rhent neu denantiaeth neu gyfriflen morgais. Os yw eich costau gofal plant yn fwy na £500 y mis, rhaid i chi ddarparu derbynneb o daliad neu gyfriflen banc.

Nodyn 9 **Pa wybodaeth bellach allaf ei rhoi ar dudalen 5?**

Gallwch ddefnyddio'r blwch 'Gwybodaeth Bellach' ar dudalen 5 i egluro unrhyw wybodaeth a ddarparwyd gennych yn rhywle arall ar y ffurflen.

Rhan B

Nodyn 10 **Nid wyf yn siŵr a ydw i yn hunangyflogedig, mewn partneriaeth neu'n dal swydd cyfarwyddwr?**

Os nad ydych yn siŵr a ydych yn hunangyflogedig ai peidio, efallai y bydd y cwestiynau yma o gymorth:
A ydych yn rhoi anfonebau i gleientiaid am y gwaith a wnewch iddynt?
A oes gennych nifer o gleientiaid gwahanol yr ydych yn gweithio iddynt?
A ydych yn gyfrifol am golledion eich busnes yn ogystal â derbyn yr elw?

A ellwch gyflogi pobl eraill i wneud y gwaith yr ydych wedi ei dderbyn?
A ydych wedi buddsoddi eich arian eich hun yn eich busnes?
A ydych yn darparu eitemau mawr o offer sy'n hanfodol ar gyfer eich gwaith?
A ydych wedi gorfod llenwi ffurflen dreth hunanasesu Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM)?
Os ydych wedi rhoi ateb **cadarnhaol** i'r rhan fwyaf o'r cwestiynau hyn, mae'n debygol eich bod yn hunangyflogedig. Nid yw gweithio i chi'ch hun (bod yn hunangyflogedig) yn golygu na allwch weithio i rywun arall (fel cyflogai).

Mae nifer o fusnesau bychain yn **unig-fasnachwyr**. Golyga hyn eich bod yn derbyn yr holl incwm a gynhyrchir gan y busnes i'w gadw i chi'ch hun neu i'w ail fuddsoddi. Mae gennych reolaeth lwyr a gallwch wneud penderfyniadau fel y mynnwch. Mae unig-fasnachwyr hefyd yn ysgwyddo cyfrifoldeb llwyr am atebolrwydd a dyledion.

Fel unig-fasnachwr mae'n ofynnol i chi lenwi ffurflen dreth hunanasesiad ar gyfer CThEM. Rhaid i chi hefyd gadw cofnodion sy'n dangos incwm a gwariant eich busnes. **Rhaid i chi ddangos y ddau yma wrth wneud cais am gymorth cyfreithiol.**

Mewn **partneriaeth**, mae dau neu ragor o bobl yn rhannu'r risgiau, costau a'r cyfrifoldebau am y busnes. Mae pob partner yn hunangyflogedig ac yn cymryd cyfran o'r elw. Fel rheol mae pob partner yn cyfrannu at y penderfyniadau ac yn bersonol gyfrifol am unrhyw ddyledion y busnes. Nid cwmni cyfyngedig yw partneriaeth. Dylech ateb 'Ydwyf' i'r cwestiwn hwn hyd yn oed os ydych yn **bartner segur** (hynny yw, nid ydych yn ymwneud â'r bartneriaeth, ond mae gennych hawl i gyfran o'r busnes a'i elw).

Rhaid i'r bartneriaeth ei hun **a** phob partner unigol lenwi ffurflen dreth hunanasesu CThEM. Rhaid i'r bartneriaeth hefyd gadw cofnodion sy'n dangos incwm a gwariant y busnes. **Rhaid i chi gyflwyno eich ffurflen dreth eich hun, ffurflen dreth y bartneriaeth a chyfrifon busnes diweddaraf y bartneriaeth wrth wneud cais am gymorth cyfreithiol.**

Mae **cyfarwyddwr cwmni** yn rhywun sydd wedi ei gofrestru fel cyfarwyddwr cwmni cyfyngedig (nid yw hyn yn cynnwys elusennau). Nid oes rhaid i gyfarwyddwr fodyn berchen cyfranddaliadau yn y cwmni hwnnw. **Rhaid i chi gyflwyno cyfrifon busnes eich cwmni a'ch ffurflen dreth hunanasesu lawn wrth wneud cais am gymorth cyfreithiol.**

At bwrpas y ffurflen hon mae **cyfranddaliwr** yn golygu rhywun sy'n berchen ar swm o gyfranddaliadau mewn **cwmni cyfyngedig preifat**.

Os ticiasoch 'do' ar gyfer cwestiwn 1s, rhaid i chi ddarparu'r copi diweddaraf o'ch cyfrifon busnes gorffenedig a'ch ffurflen dreth hunanasesiad lawn (sa100). Nid yw'n ddigonol cyflwyno'ch taflen cyfrifo treth yn unig.

Os ydych yn **is-gontractwr** rydych yn ymgymryd â gwaith gan gontractwr. Er 6 Ebrill 2007 mae'r Cynllun Diwydiant Adeiladu (CDA) yn rhwymo contractwyr i lenwi ffurflen dreth yn fisol. Ni ddefnyddir talebau papur ar ôl y dyddiad yma. Mae isgontractwyr rŵan yn derbyn **cyfriflen tâl a didyniadau,** y mae'n **rhaid** ei darparu wrth wneud cais am gymorth cyfreithiol.

Os ydych yn gweithio i **asiantaeth**, ni ellir eich ystyried fel cyflogai yn y cwmni yr ydych yn gweithio iddo, ond mae'n rhaid i chi gyflwyno slipiau cyflog **am y tri mis diwethaf.**

CDS16 Cais am Adolygiad ar sail Caledi

Cyffredinol

Mae'r ffurflen hon ar gyfer ymgeiswyr sydd am geisio cael adolygiad ar sail caledi a gellir ei chyflwyno naill ai gyda neu ar ôl y cais cychwynnol. Gellir cyflwyno'r CDS16 ond yn unig ynghyd â'r CDS14 a'r CDS15. Gellir canfod arweiniad pellach ynglŷn ag Adolygiad ar sail Caledi CDS16 a'r dystiolaeth angenrheidiol ar:
http://www.legalservices.gov/criminal/getting_legal_aid/hardship_unit.asp

CDS17 Datganiad Gwirionedd

Cyffredinol

Os ydych yn ymgeisydd mewn gwaith ac yn y ddalfa ac yn methu â chael tystiolaeth ddogfennol o'ch cyflog neu dâl, rhaid i chi lenwi'r CDS17 ynghyd â'r CDS15. Ni ellir cyflwyno CDS17 ond yn unig ynghyd â'r CDS15.

Ni ellir llenwi'r CDS17 gan **ymgeiswyr hunangyflogedig, cyflogedig nac ymgeiswyr sy'n derbyn budd-dal.**

A ddylwn roi manylion ynglŷn â fy incwm cyn neu ar ôl treth ac yswiriant cenedlaethol?

Rhaid i ymgeiswyr nodi, gan ddefnyddio'r blwch ticio a ddarparwyd, p'un ai yw'r incwm a nodir cyn neu ar ôl treth ac yswiriant cenedlaethol.